CYFRES C1

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Daniel 1: 1-21

ADNOD ALLWEDDOL
Daniel 1: 20

Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Daniel – Y Wlad Ddieithr

Pan ymosododd y Brenin Nebuchadnesar ar wlad Jwda, aeth â nifer fawr o bobl, yn cynnwys Daniel, nôl i wlad Babilon gydag ef. Cafodd Daniel a'i dri ffrind, Hananeia, Misael ac Asareia, eu trin yn dda gan y Brenin Nebuchadnesar. Cawsant fynd i ysgol arbennig i gael eu hyfforddi am dair blynedd.

C Tynnwch linell o dan enw'r brenin a ymosododd ar Jwda ac enw'r wlad yr aeth Daniel iddi.

Nero Nebuchadnesar Ninefe Nisroch
Yr Aifft Jwda Syria Babilon

4

Er eu bod mewn gwlad ddieithr, penderfynodd Daniel a'i ffrindiau fyw yn dda a cheisio plesio Duw. Fe gawson nhw enwau newydd yn y wlad newydd. Beltesassar oedd enw Daniel, Sadrach oedd enw newydd Hananeia, Mesach oedd enw newydd Misael ac Abednego oedd enw newydd Asareia.

C Tynnwch linell syth rhwng enw newydd pob un o'r dynion a'i hen enw. (Mae un wedi'i wneud yn barod).

Daniel	Sadrach
Hananeia	Abednego
Misael	Beltesassar
Asareia	Mesach

6

Roedden nhw'n cael bwyd gwahanol i'w fwyta hefyd. Roedd peth ohono wedi cael ei offrymu i'r duwiau ffug yn y deml baganaidd. Roedd y pedwar Hebrëwr ifanc yn credu fod hyn yn anghywir ac roedden nhw'n gwrthod ei fwyta. Roedd swyddogion y brenin yn ofni na fydden nhw'n edrych mor iach â'r rhai oedd yn bwyta bwyd y brenin. Felly, cytunwyd y byddai Daniel a'i ffrindiau yn cael dim ond llysiau i'w bwyta a dŵr i'w yfed am ddeg diwrnod, yn lle bwyd y brenin.



llysiau

dŵr

C Dewiswch pa rai o'r geiriau isod sy'n ateb y cwestiynau.

duwiau ffug Daniel deg diwrnod llysiau

I beth oedd bwyd y brenin wedi cael ei gynnig? .....

Pwy benderfynodd beidio â bwyta'r bwyd hwn? .....

Beth wnaeth e'i fwyta yn lle hynny? .....

Am sawl diwrnod wnaeth hyn bara? .....

8

Ar ôl y deg diwrnod, roedd Daniel a'i dri ffrind yn edrych yn well o lawer na'r lleill, ac felly doedd dim rhaid iddynt fwyta bwyd y brenin. Bendithiodd Duw yr Hebreaid a'u gwneud yn ddoeth. Helpodd Duw Daniel i esbonio breuddwydion. Ar ddiwedd eu hyfforddiant, roedd y brenin yn gweld eu bod ddeg gwaith yn fwy doeth na neb arall yn ei deyrnas! Roedd Duw wedi eu gwobrwyo am fod yn ffyddlon iddo. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ufudd i Dduw ac yn gwrthod gwneud pethau drwg.

2

C Pwy oedd wedi gwneud Daniel yn ddoeth? Ticiwch yr ateb cywir.

Shadrach ☐ Yr ysgol ☐

Duw ☐ Nebuchadnesar ☐

Enw _____

DARLLENWCH
Daniel 2: 48,49 a
3: 1-30

ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 3: 17

Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.

Stori 2 Y Ffwrnais Danllyd



Un diwrnod, gwnaeth y Brenin Nebuchadnesar ddelw aur. Roedd yn 90 troedfedd o uchder ac yn naw troedfedd o led! Yna, gorchmynnodd i'w holl dywysogion a swyddogion pwysig, yn cynnwys Sadrach, Mesach ac Abednego i ddod i seremoni arbennig.
Daeth y bobl i gyd a cherddorfa'r brenin at y ddelw fawr. Pan fyddai'r miwsig yn dechrau, byddai'n rhaid iddyn nhw blygu ac addoli'r ddelw. Os na fyddent yn gwneud hynny, byddent yn cael eu taflu i'r ffwrnais danllyd.

C Rhowch gylch o gwmpas un gair i ddangos o beth roedd y ddelw wedi'i gwneud.

Carreg plastig arian aur pren

2

Pan glywodd y bobl y miwsig, fe wnaeth pawb ond Sadrach, Mesach ac Abednego blygu ac addoli'r ddelw. Roedden nhw'n dal ar eu traed! Roedden nhw'n gwybod nad oedden nhw i fod i addoli duwiau ffug a doedden nhw ddim eisiau bod yn anufudd i Dduw.

C Ysgrifennwch enwau'r tri Hebread oedd yn gwrthod addoli'r ddelw.

....

6

Pan glywodd y brenin beth oedd wedi digwydd, roedd yn grac iawn a gofynnodd am gael gweld yr Hebreaid ifanc. Gofynnodd a oedd yn wir eu bod nhw wedi gwrthod ufuddhau iddo.
Dywedodd ei bod yn rhaid iddynt blygu ac addoli'r ddelw neu byddent yn cael eu taflu i mewn i'r ffwrnais danllyd!

Atebodd y tri dyn a dweud:

"Y mae'r

Duw a addolwn ni yn alluog i'n hachub

o ganol y ffwrnais danllyd"

4

Lliwiwch y geiriau.

Gorchmynnodd y brenin i'r ffwrnais gael ei phoethi saith gwaith yn boethach nag arfer ag i'r tri dyn gael eu taflu i mewn! Yn sydyn, neidiodd y brenin mewn syndod! Nid tri dyn a welai ond pedwar dyn yn cerdded yn y tân, heb niwed! Roedd Duw'n gwarchod ei weision! Pan ddaethant allan, doedd dim hyd yn oed aroglau mwg ar eu dillad!

Dechreuodd y brenin foli Duw. Dywedodd fod Duw wedi achub y dynion am eu bod wedi ymddiried ynddo. Dywedodd y brenin nad oedd neb i ddweud dim byd cas am Dduw. Rhoddodd swyddi pwysig i Sadrach, Mesach ac Abednego. Unwaith eto, roedd Duw wedi helpu pobl oedd yn ymddiried ynddo. Mae'n gwneud yr un peth heddiw!

C Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau isod yn y GRID GEIRIAU.

I Lawr

1. Enw un o'r dynion a daflwyd i'r ffwrnais

Ar Draws

2. Sawl gwaith poethach nag arfer oedd y ffwrnais?

3. Sawl dyn oedd y brenin yn eu gweld?

4. Enw un arall o'r dynion ifanc?



8

Enw _____

DARLLENWCH
Daniel 6: 1-16

ADNOD ALLWEDDOL
Daniel 6: 16

Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Daniel – Y Ffenestri Agored

Roedd brenin newydd ar y wlad erbyn hyn.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf bob un o'r pethau isod i weld ei enw.

_____ _____ _____ _____ _____ _____ _____

2

Gan fod Daniel yn gwneud ei waith mor dda, roedd y brenin eisiau rhoi job bwysig iawn iddo, i ofalu am y wlad gyfan! Roedd y swyddogion eraill yn genfigennus. Penderfynon nhw geisio dod o hyd i fai ar waith Daniel er mwyn i'r brenin newid ei feddwl. Ond roedd un broblem. Roedd Daniel mor onest ac mor ofalus fel na allen nhw ddod o hyd i unrhyw fai arno!

C Rhowch ✓ neu ✗ ar bwys pob brawddeg i ddangos a yw'n gywir neu'n anghywir.

Roedd y brenin yn bwriadu gofyn i Daniel ofalu am y wlad gyfan. .....

Roedd Daniel yn genfigennus o'r swyddogion eraill. .....

Roedd Daniel yn onest ac yn ofalus yn ei waith. .....

6

Roedd Daniel yn gwybod ei fod yn plesio Duw trwy wneud ei waith yn dda a dweud y gwir bob amser. Os ydyn ni, fel Daniel, yn caru Duw, dylen ni geisio'i blesio hefyd yn ein gwaith ac yn ein cartrefi.



Roedd gelynion Daniel yn gwybod ei fod yn siarad â'r Arglwydd mewn gweddi yn aml. Felly, penderfynon nhw osod trap. Awgrymon nhw wrth Dareius bod angen cyfraith newydd. Am 30 diwrnod, dim ond ar y brenin roedd hawl gan bobl weddïo. Cytunodd y brenin.

C Lliwiwch y rhif sy'n dangos am faint o ddyddiau y byddai'r gyfraith newydd yn para.

15 30 50

2

Roedd Daniel yn gwybod mai trap oedd hwn ond roedd yn trystio Duw. Roedd gweddïo ar Dduw yn rhan bwysig iawn o'i fywyd a doedd e ddim am roi'r gorau iddi. Felly, aeth Daniel i'w ystafell fel arfer a phenlinio o flaen y ffenestri agored oedd yn wynebu Jerwsalem. Yno, roedd yn gweddïo ar Dduw dair gwaith bob dydd.

C Llanwch y bylchau yn y frawddeg.

P _ _ _ _ _ _ _ _ Daniel a g _ _ _ _ _ ar

Dduw o flaen y ff _ _ _ _ _ _ agored.

6



Ydych chi'n trystio Duw? Ydych chi'n gweddïo arno bob dydd?
Gwelodd gelynion Daniel ef yn gweddïo ac aethon nhw i ddweud wrth y brenin. Ceisiodd y brenin feddwl am ryw ffordd o achub Daniel ond roedd yn methu gan nad oedd yn bosib newid cyfraith y wlad. Byddai'n rhaid taflu Daniel i

ffau'r llewod.

4

Lliwiwch y llythrennau a'r llew.

Enw

DARLLENWCH
Daniel 6: 17-28

ADNOD ALLWEDDOL
Daniel 6: 22

Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Daniel – Ffau'r Llewod

Cyn i Daniel gael ei roi yn ffau'r llewod, â charreg fawr ar draws ceg y ffau, dywedodd Dareius, y brenin, wrtho,
"Bydded i'th Dduw, yr hwn yr wyt yn ei wasanaethu'n barhaus, dy achub."

Yna, aeth y brenin yn ôl i'r palas. Gwrthododd fwyta ac roedd yn methu cysgu gan ei fod yn meddwl am ei was a'i ffrind ffyddlon, Daniel.

C Llanwch y bylchau i weld beth ddywedodd y brenin.

"Bydded i'th Dd _ _,
yr hwn yr wyt yn ei
w _ _ _ _ _ _ _ _ _ 'n barhaus,
dy a _ _ _ _."

Yn gynnar iawn fore trannoeth, brysiodd y brenin at ffau'r llewod. Galwodd ar Daniel a gofyn a oedd ei Dduw wedi'i achub oddi wrth y llewod.
Atebodd Daniel gan ddweud bod ei Dduw wedi anfon angel i gau cegau'r llewod fel na fyddent yn gwneud niwed iddo.

4



2

Lliwiwch y llun.

C Pwy achubodd fywyd Daniel? Ticiwch yr ateb cywir.

Dareius ☐

Y swyddogion ☐

Duw ☐

2

Roedd y brenin Dareius wrth ei fodd. Gorchmynnodd i Daniel gael ei ryddhau o'r ffau. Gwelwyd nad oedd wedi cael niwed o gwbl am ei fod yn credu yn Nuw. Yna, gorchmynnodd Dareius fod y dynion drwg oedd wedi dweud pethau cas am Daniel a'u teuluoedd yn cael eu taflu i ffau'r llewod. Hyd yn oed cyn iddynt gyrraedd gwaelod y ffau, roedd y llewod wedi'u llarpio a malu eu hesgyrn yn chwilfriw!

C **Llanwch y Grid Geiriau.**

1. Enw'r brenin
2. Cafodd Daniel ei daflu i ___ _ _ y llewod
3. Chafodd Daniel ddim _ _ _ _ _
4. Yna, cafodd y dynion drwg a'u _ _ _ _ _ _ _ _ ___ eu taflu i'r ffau
5. Cafodd eu hesgyrn eu malu'n ___ _ _ _ _ _ _



10

Yna, ysgrifennodd y brenin at yr holl bobl i ddweud wrthynt pa mor dda oedd Duw Daniel. Dywedodd y dylai pawb ofni a pharchu y Duw byw a oedd wedi achub Daniel rhag y llewod.

C **Tynnwch linell trwy'r brawddegau sy'n ANGHYWIR.**

Cafodd Daniel ei achub gan Dareius.

Cafodd Daniel ei achub gan ei fod yn credu yn Nuw.

Cafodd Daniel ei achub am ei fod yn gryf.

2

Mae angen i ni gael ein hachub rhag cael ein cosbi am ein pechodau. Bu Iesu farw er mwyn i ni gael ein hachub. Os credwn ei fod wedi marw drosom ni, bydd Duw yn ein hachub ac yn rhoi bywyd tragwyddol i ni.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 C1

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120